OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 368

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005

**Hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad arfaethedig**

**16.**—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad arfaethedig a roddir yn unol ag adran 31(2) o Ddeddf 2004 ddatgan y ffeithiau y mae'r etholwr llywodraeth leol yn bwriadu dibynnu arnynt, a chynnwys, i'r graddau y mae'n bosibl —

(a) manylion unrhyw eitem o gyfrif yr honnir ei bod yn groes i'r gyfraith, a

(b) manylion unrhyw fater y bwriedir y gall yr archwilydd wneud adroddiad mewn perthynas ag ef o dan adran 22 o'r Ddeddf honno.

(2) Ym mharagraff (1) os yw hysbysiad yn ymwneud â blwyddyn ariannol sy'n cychwyn cyn 1 Ebrill 2005 gall gynnwys yn ychwanegol at y materion hynny yn is–baragraffau (a) a (b) fanylion am unrhyw berson yr honnir y dylai'r archwilydd ardystio o dan adran 18 o Ddeddf 1998 bod swm neu gyfanswm o golled neu ddiffyg yn ddyledus oddi wrtho, a maint y swm hwnnw, ar yr amod nad yw'r hysbysiad yn ymwneud ag awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru(**1**).

(**1**) *Gweler*O.S. 2000/3335 mewn perthynas ag awdurdodau heddlu yng Nghymru.